



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

**08456 000 813**

## Rheoli Tafol



Mae dail tafol (*Rumex obtusifolius*) a thafol crych (*Rumex crispus*) yn blanhigion cynhenid i'r DU. Wedi iddynt ymsefydlu maent yn datblygu prif wreiddyn dwfn â changhennau fforchog. Maent yn lledaenu trwy gyfrwng darnau o wreiddiau sy'n eu cynorthwyo i ailsefydlu yn gyflym iawn, a thrwy hadau sy'n parhau ynghwsg yn y pridd am 60-70 mlynedd. Mae tafol yn ffynnu mewn pridd noeth a phorfeydd agored sydd fel arfer i'w gweld mewn systemau slyri, wrth dorri silwair, wrth bori gwartheg a chyda chnydau anghystadleuol. Mae astudiaethau wedi dangos y gall dail tafol gael effaith fawr ar dwf glaswellt: mae 5-10 planhigyn

am bob m<sup>2</sup> yn lleihau twf rhygwellt o hyd at 30% yn ystod misoedd canol yr haf.

Mae dail tafol (yn ogystal ag ysgall a llysiau'r gingroen) yn chwyn niweidiol sydd wedi eu henwi yn Neddf Chwyn 1959. Mae gan DEFRA bwerau i gyflwyno hysbysiadau clirio ond dim ond mewn sefyllfaoedd pan fo'r chwyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gynhyrchiant amaethyddol y bydd yn gwneud hynny.



### Mae angen defnyddio sawl dull i'w rheoli:

#### Atal hadu

- Torrwch wndwn silwair cyn i ddail tafol dyfu pen – mae'r amcangyfrifon yn amrywio ond gall dail tafol gynhyrchu hyd at 25,000 o hadau'r flwyddyn.
- Tociwch gaeau pori cyn i ddail tafol flaguro

#### Lleihau'r graddau y bydd yn ymsefydlu

- Heuwch wndwn glaswellt o dan gnydau grawnfwyd
- Osgowch hau cnydau mewn rychau yn ystod y cyfnodau pan fydd dail tafol yn egino fwyaf (Mawrth/Ebrill a Medi/Hydref) felly ystyriwch gnydau fel maip sofr sydd yn cael eu hau yng nghanol yr haf
- Byddwch yn ofalus wrth daenu slyri rhag ofn eich bod yn niweidio'r borfa, a gwnewch yn sir eich bod yn ei daenu'n wastad
- Osgowch niwed drwy sathru pan fo'r tir yn wlyb

### Atal planhigion rhag aeddfedu

- Rheolwch drwy bori defaid yn ddwys ar eginblanhigion ifanc. Porwch yn achlysurol er mwyn osgoi niwed i'r borfa; peidiwch â phori'n barhaus
- Rheolwch drwy chwynnu â llaw

### Lladd neu wanhau prif wreiddiau a hadau

- Compostiwch dail yn drylwyr er mwyn lladd hadau dail tafol
- Gall troi'r tir sawl gwaith a thynnu'r gwreiddiau i'r wyneb er mwyn iddynt sychu fod yn opsiwn mewn ardaloedd sych, ac ar gyfer dail tafol sydd wedi ymsefydlu. Rhaid bod yn ofalus rhag gwneud y broblem yn waeth!

### Gwrtaith / rheoli maethynnau

- Mae dail tafol yn ffynnu mewn priddoedd sy'n llawn N, P a K. Mewn un astudiaeth, nid oedd rhoi llai o K yn cael prin ddim effaith ar gynhyrchiant gwair, ond gostyngodd yn sylweddol swm y dail tafol. Mae crynodiadau uchel o galsiwm (Ca) a magnesiwm (Mg) mewn pridd hefyd wedi cael eu cysylltu â niferoedd llai o ddail tafol. Gellir teilwra cynlluniau rheoli maethynnau er mwyn lleihau eu niferoedd drwy gylchdroi caeau a ddefnyddir i gynhyrchu sil wair (sy'n derbyn llawer o botash drwy slyri) gyda chaeau a ddefnyddir ar gyfer pori, a sicrhau y rhoddir calch ar gaeau er mwyn cynnal y lefelau pH a argymhellir (pH 6.2).



### Rheolaeth fiolegol

Er nad yw rheolaeth fiolegol yn arfer cyffredin, mae gwaith ymchwil wedi dangos y gall ymddangosiad naturiol y chwilen dail tafol (*Gastrophysa viridula*) a ffwng rhwd (*Uromyces rumicis*) gael effaith fawr ar dwf, adfywiad a chynhyrchiant hadau dail tafol. Mae'r chwilod hyn i'w gweld yn aml mewn niferoedd mawr yn ystod y cyfnod cynhyrchu silwair.

Mae **Rheolaeth drwy Wres** a **Rheolaeth Electroffisegol** yn ddulliau eraill llai adnabyddus o reoli dail tafol. Mae gwaith ar y gweill i ymchwilio i effeithiolrwydd y triniaethau hyn fel rhan o brosiect EIP Cymru (Cyswllt Ffermio - [Rheoli Dail Tafol yn Electroffisegol](#)).

### Chwynladdwr

Mae hwn yn ddull effeithiol iawn mewn glaswelltir sydd wedi ymsefydlu a dylid ei ddefnyddio pan fo'r dail tafol wrthi'n tyfu ar y cam roséd ac yn 15-20cm o ddiamedr. Mae'r cemegion addas yn cynnwys MCPA, 2,4D, chlopyralid, fluropyr a triclopyr. Dylech bob amser ddarllen y label a dilyn y canllawiau.

**Rhagor o wybodaeth:** [Rheoli Dail Tafol](http://www.organicresearchcentre.com) ([www.organicresearchcentre.com](http://www.organicresearchcentre.com))

